Y Parchedig Eifion Powell
1984-9, 1999-2002

Bu'r Parchedig Eifion Powell yn weinidog ar Eglwys Minny Street dros ddau gyfnod gwahanol sef yn gyntaf o 1984-9 ac eilwaith o 1999-2002. Yn dilyn marwolaeth y Parchedig D. T. Evans yn 1983, penderfynwyd rhoi galwad i Eifion a oedd ar y pryd yn weinidog yn Wrecsam ac aeth pedwar diacon, sef John Davies, Gwyn Evans, Don Jenkins a minnau i'w gartref yn Wrecsam i gael gair ag ef a'i briod, Beca. Derbyniwyd yr alwad a daeth yntau, Beca a'r plant Elin a Peredur atom. Cof da gennyf am y croeso a roed inni ac am Eifion â'i hiwmor arferol yn ein hatgoffa o stori am weinidog ryw dro yn trafod manylion galwad â chynrychiolwyr eglwys tra oedd ei wraig eiddgar wedi dechrau pacio ar y llofft! A dyna grynhoi cymeriad Eifion. Person yn llawn hiwmor naturiol ac yn medru plethu'r hiwmor hwnnw'n gelfydd yn ei bregethau fel rhan o'i ddull o drosglwyddo neges yr Efengyl yn eglur a difyr. Cododd y ddawn hon yn ddi-os o'i gefndir ym mro ei febyd yng Nghwm-gors a'i adnabyddiaeth o'r gymdeithas yno ac nid oes odid eglwys y bu Eifion yn pregethu ynddi na chlywodd am ambell i gymeriad o'r fro honno.

Bu cyfraniad Beca yn fawr yn ei gwaith gyda'r chwiorydd yn ysgrifennu a chynhyrchu drama a berfformiwyd gan y gwragedd, a chyda'r plant. Yn ystod cyfnod olaf ei weinidogaeth gyntaf ym Minny Street trawyd Beca gan dostrwydd blin a bu peth adfer cyn iddynt eu dau adael Minny Street yn 1989 pan benodwyd Eifion yn ddarlithydd yng Ngholeg yr Annibynwyr Cymraeg yn Aberystwyth ac wedyn yn Brifathro'r Coleg lle bu'n fawr ei barch gan ei fyfyrwyr. Yn ystod y cyfnod hwn fodd bynnag daeth cwmwl tostrwydd Beca yn ôl a bu farw ym mis Ionawr 1993.

Ac yntau wedi ymddeol, dychwelodd Eifion i Minny Street yn 1999 yn weinidog rhan-amser yn dilyn ymadawiad y Parchedig Ieuan Davies. Bu'n arweinydd doeth a charedig yn y cyfnod hwn ac ef oedd cadeirydd y pwyllgor bugeiliol a argymhellodd roi galwad i'r Parchedig Owain Llyr Evans. Bellach mae ef a Catherine ei briod yn rhannu eu hamser rhwng Caerdydd a Chwm Afan.

Yn ystod ei yrfa yn weinidog, darlithydd a phrifathro cyfrannodd Eifion yn helaeth yn olygydd ac awdur. Bu'n Llywydd yr Undeb 1996-7.

Bu farw'r Parchedig Eifion Powell ar 24 Mehefin, 2009. Gosodwyd coflech iddo ar fur y capel yn 2011 ac arni'r arysgrif, *"Wrth i ni addoli Duw, daw y gras sy'n drech na'r byd."* – geiriau allan o un o'r nifer emynau a ysgrifennodd.

(addasiad o deyrnged gan
Iwan Jones *allan o* ***Llewyrch Ddoe, Llusern Yfory***. 2009. *Gol:* J. Gilbert Evans, Glyn E. Jones, Iolo M.Ll. Walters;
cyhoeddwyd gan Eglwys Annibynnol Minny Street Caerdydd)
(addaswyd 2011)